OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2019 No. 179

# Rheoliadau Maethiad (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019

**Diwygio Rheoliadau Bwyd at Ddefnydd Maethol Neilltuol (Ychwanegu Sylweddau at Ddibenion Maethol Penodol) (Cymru) 2009**

**7.**—(1) Mae Rheoliadau Bwyd at Ddefnydd Maethol Neilltuol (Ychwanegu Sylweddau at Ddibenion Maethol Penodol) (Cymru) 2009(**1**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn Atodlen 1, yng ngholofn "y pwnc" o'r tabl—

(a) yn y cofnod sy'n ymwneud ag Erthygl 2(1), yn lle "a gwmpesir gan Gyfarwyddeb 2009/39 Senedd Ewrop a'r Cyngor am fwydydd sydd wedi eu bwriadu at ddefnydd maethol neilltuol" rhodder "(bwydydd y mae gwahaniaeth amlwg rhyngddynt, oherwydd eu cyfansoddiad arbennig neu'r broses o'u gweithgynhyrchu, a bwydydd sydd wedi eu bwriadu ar gyfer eu bwyta'n arferol, sy'n addas at y dibenion maethol a honnir ac sydd wedi eu marchnata mewn ffordd sy'n dangos eu bod yn addas felly)";

(b) yn y cofnod sy'n ymwneud ag Erthygl 3(2), yn lle "yr Asiantaeth Safonau Bwyd" rhodder "yr Ysgrifennydd Gwladol, Gweinidogion Cymru, Safonau Bwyd yr Alban neu'r Asiantaeth Safonau Bwyd yng Ngogledd Iwerddon";

(c) yn y cofnodion sy'n ymwneud ag Erthygl 4(2) ac Erthygl 4(3), yn lle "ddeddfwriaeth yr UE" rhodder "gyfraith yr UE a ddargedwir".

(**1**) O.S. 2009/3254 (Cy. 283) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2011/1043 ac O.S. 2016/639 (Cy. 175).